**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf JJ/PO/396/2023

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.cymru

23 Tachwedd 2023

Annwyl John,

Diolch am y cyfle i annerch aelodau'r Pwyllgor ar 09 Tachwedd 2023 a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Rhaglen Diogelwch Adeiladau Cymru.

Yn ystod y sesiwn, rhoddais yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Cefnogi Lesddeiliaid, sy'n cynnwys cynlluniau i ehangu cyfleoedd i ymgeiswyr gael gafael ar gymorth. Gofynnais hefyd am gefnogaeth yr aelodau i roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun hwn.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai aelodau ddosbarthu'r daflen atodedig yn eu hetholaethau, gan annog unrhyw lesddeiliaid sydd mewn trafferthion ariannol i gwblhau ein gwiriwr cymhwysedd, i weld a allant gael help drwy'r Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid.

Roeddwn hefyd am sicrhau fod pob aelod yn ymwybodol bod diweddariadau rheolaidd ar Raglen Diogelwch Adeiladau Cymru, gan gynnwys unrhyw gyhoeddiadau ffurfiol sydd wedi'u gwneud yn y Senedd, ar gael drwy ein Cylchlythyr.

I dderbyn y cylchlythyr, bydd angen i chi danysgrifio trwy glicio ar y ddolen yma a chofrestru eich diddordeb.

Os hoffech danysgrifio i'r fersiwn Gymraeg tanysgrifiwch yma.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan y Rhaglen Diogelwch Adeiladau.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid

**Mae'r Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid wedi'i gynllunio i helpu pobl sy'n wynebu caledi ariannol sylweddol o ganlyniad uniongyrchol i broblemau diogelwch tân posibl sy'n effeithio ar eu heiddo canolig neu uchel. Dechreuodd dderbyn ceisiadau ym mis Mehefin 2022.**

Mae'r cynllun yn rhad ac am ddim ac mae wedi'i gynllunio i gynnig cyngor ac atebion i lesddeiliaid o ran eu pryderon ariannol presennol.

Y cam cyntaf yw cwblhau **gwiriwr cymhwysedd y cynllun** lle gallwch wirio a allech fod yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Os ydych yn credu eich bod yn gymwys i wneud cais, yna y cam nesaf yw gwneud cais. Ni fydd cwblhau unrhyw ran o'r broses ymgeisio hon yn effeithio ar eich sgôr credyd mewn unrhyw ffordd.

Mae dogfennau papur, hygyrch a Chymraeg ar gael. Gall ein tîm ymroddedig hefyd eich helpu i'w cwblhau.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid, neu os hoffech gael cymorth i wneud cais, cysylltwch â **applications@leaseholdersupportscheme.cymru**.

Ewch i **www.llyw.cymru/cynllun-cymorth-lesddeiliaid** i gael rhagor o wybodaeth.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47822
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg